**Grŵp Trawsbleidiol ar Rasio Ceffylau: Cofnodion y cyfarfod ar 21 Tachwedd 2023 – 12.00-13.00**

**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel

**Aelodau:** Llyr Gruffydd AS (Plaid Cymru – Cadeirydd), Alun Davies AS (Llafur), James Evans AS (Ceidwadwyr), Joel James AS (Ceidwadwyr)

**Allanol:** Jack Barton (Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain – Ysgrifenyddiaeth), Henry Dixon-Clegg (Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain – Ysgrifenyddiaeth)

**Ymddiheuriadau:** Samuel Kurtz AS (Ceidwadwyr), Jack Sargeant AS (Llafur)

**Amser dechrau'r cyfarfod: 12:10**

Agorodd Jack y cyfarfod drwy gyflwyno crynodeb o waith y grŵp yn ystod 2023.

**Rasio pwynt-i-bwynt** – Mae pum ras pwynt-i-bwynt wedi'u trefnu ar ddechrau 2024 yn Sir Benfro a Sir Gâr. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw rasio pwynt-i-bwynt yng Nghymru wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn COVID. Un prif ffactor yw bod ffermwyr ddim yn rhoi caniatâd i ddefnyddio eu tir mwyach oherwydd y goblygiadau o ran yswiriant. Dywedodd James Evans y byddai'n rhannu manylion cyswllt aelod o staff perthnasol yn Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr â Jack i drafod y mater mewn mwy o fanylder. Mae yswiriant yn broblem ar draws y diwydiant, yn enwedig ar gyfer rhai iardiau hyfforddi, gydag yswirwyr yn gadael y farchnad a phremiymau'n cynyddu. Ychwanegodd Jack y byddai Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain yn ceisio llunio rhestr o'r yswirwyr y mae hyfforddwyr yng Nghymru yn eu defnyddio.

**Swyddi, Addysg a Hyfforddiant** – Gofynnodd Jack i aelodau'r grŵp barhau i anfon manylion am golegau amaethyddol a sefydliadau addysgol yn eu hetholaethau sy'n darparu cyrsiau sy'n gysylltiedig â cheffylau. Soniodd hefyd fod y darparwr hyfforddiant RMF Group, sydd wedi'i leoli yn Solihull, wedi dechrau cynnig diplomâu mewn gofal ceffylau, gan gyfeirio at drafodaeth a gafwyd ym mis Medi pan nodwyd bod Cymru a gorllewin Lloegr yn tueddu i fod â llai o gyfleoedd hyfforddi ac addysg yn y maes hwn. Soniodd Alun Davies fod Coleg Gwent yn darparu cyrsiau da ym maes ceffylau ac awgrymodd y gallai fod yn fuddiol i gynrychiolwyr y coleg gysylltu ag RMF Group.

Dywedodd Alun yr hoffai i'r Grŵp Trawsbleidiol ganolbwyntio ar addysg a hyfforddiant, yn ogystal â thwf ar gyfer y tri chwrs rasio yng Nghymru, yn ystod 2024. Atebodd Jack ei fod yn cytuno â'r blaenoriaethau hyn, a bod y gwaith o greu brand Rasio Cymru yn nwylo'r caeau rasio ar hyn o bryd ac ni all Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain ond eu hannog i fwrw ymlaen â'r prosiect.

**Lles ceffylau** – Soniodd Jack am y cyfrifiad brîd pedigri (rhan o'r Strategaeth Lles Ceffylau ehangach) a dywedodd ei fod yn bwriadu tynnu sylw Lesley Griffiths, y Gweinidog, at y mater hwn i weld a fyddai'n fodlon cyhoeddi neges ar y cyfryngau cymdeithasol i annog bridwyr ceffylau yng Nghymru i gymryd rhan yn y cyfrifiad. Cytunwyd y byddai Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain yn drafftio ymateb ar ran y grŵp i lythyr gan aelod o'r cyhoedd ynghylch lles ceffylau a'i rannu â holl aelodau'r grŵp. Cododd Alun ddigwyddiad galw heibio yn y Senedd a gynhaliwyd gan Fwrdd Milgwn Prydain ac a noddwyd gan Joel James. Nododd fod y Bwrdd wedi dweud wrth Aelodau a alwodd heibio fod safonau lles ym maes rasio milgwn yn debyg i'r safonau ym maes rasio ceffylau. Bu Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain yn trafod y ddadl ynghylch rasio milgwn â'r Bwrdd yn gynharach eleni, ond ychydig iawn o ymgysylltu a fu ers hynny.

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol** – Diolchodd Llyr Gruffydd i gynrychiolwyr Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain am eu cefnogaeth a nododd fod 2023 wedi bod yn flwyddyn dda i'r grŵp. Cafodd Llyr ei enwebu gan James Evans i barhau'n Gadeirydd, ac fe eiliwyd hynny gan Alun Davies. Felly, bydd Llyr Gruffydd yn parhau i gadeirio'r Grŵp Trawsbleidiol. Henry Dixon-Clegg fydd yr Ysgrifennydd newydd, er y bydd Jack Barton yn dal i ysgwyddo rhai dyletswyddau ysgrifenyddol ac yn parhau i gefnogi'r grŵp.

**Y Pwyllgor Cynghori ar Fudo** – Atgoffodd Henry bawb o'r ffaith bod rasio ym Mhrydain yn wynebu diffyg o tua 2,500 o weithwyr, a bod Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain – gyda chymorth gan gyrff eraill yn y diwydiant – wedi gofyn i chwe rôl sy'n gysylltiedig â rasio gael eu hychwanegu at y Rhestr o Alwedigaethau lle ceir Prinder. Ers cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ym mis Medi, mae'r Pwyllgor Cynghori ar Fudo wedi argymell bod pob un o'r rolau hyn yn cael ei hychwanegu at yr rhestr. Yn awr, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Cartref gymeradwyo'r argymhellion hyn, a disgwylir penderfyniad rywbryd yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Ymwelodd Robert Jenrick AS, y Gweinidog Gwladol dros Fudo â stablau yr wythnos diwethaf i glywed gan y diwydiant am yr achos o blaid cynnwys y chwe rôl ar y rhestr. Cytunwyd y byddai Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain yn drafftio llythyr er mwyn i aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol ei lofnodi a'i anfon at yr Ysgrifennydd Cartref yn gofyn iddo gymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Cynghori ar Fudo.

**Adolygiad o'r Ddeddf Gamblo** – Dywedodd Henry fod Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain wedi cyflwyno ymateb ar 18 Hydref fel rhan o ymgynghoriad y Comisiwn Hapchwarae ar wiriadau risg ariannol (neu wiriadau fforddiadwyedd, fel y'u gelwir) ar gyfer pobl sy'n hapchwarae ar-lein. Roedd yr ymateb yn amlinellu gwrthwynebiad yr Awdurdod i wiriadau fforddiadwyedd cyffredinol, yn enwedig pan nad yw'r dechnoleg ar gyfer gwiriadau cwbl ddi-ffrithiant ar gael eto. Amcangyfrifir y byddai'r gost i'r diwydiant os caiff y gwiriadau eu gweithredu ar eu ffurf bresennol yn arwain at ostyngiad o £250 miliwn mewn cyllid dros bum mlynedd. Mae'r Awdurdod hefyd yn gwrthwynebu'n gryf y defnydd o deitlau swyddi neu godau post unigolion sy'n hapchwarae i benderfynu a ydynt 'mewn perygl' o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo ai peidio.

Canfu arolwg o ychydig yn llai na 15,000 o gefnogwyr rasio ac unigolion sy'n hapchwarae a gynhaliwyd gan y diwydiant fod 26 y cant ohonynt eisoes wedi bod yn destun gwiriad fforddiadwyedd a bod 52 y cant wedi dweud y byddent yn gamblo lawer yn llai aml neu ddim o gwbl pe bai gwiriadau fforddiadwyedd yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol. Y perygl amlwg, os cânt eu gweithredu ar eu ffurf bresennol, yw y bydd gwiriadau fforddiadwyedd yn gyrru unigolion i'r farchnad ddu, lle nad oes adnoddau ar gael i hyrwyddo dulliau mwy diogel o hapchwarae a dim camau rheoleiddiol. Ategir hyn gan ganlyniadau'r arolwg: roedd 9 y cant o'r ymatebwyr eisoes wedi defnyddio bwcis marchnad ddu, gyda 40 y cant yn dweud y byddent yn ystyried gwneud hynny pe bai gwiriadau'n cael eu cyflwyno o dan y gyfraith hapchwarae.

Yn sgil yr arolwg, lansiwyd deiseb at sylw Senedd y DU yn enw Nevin Truesdale, Prif Swyddog Gweithredol y Jockey Club, sy'n galw ar Lywodraeth y DU i ailystyried cyflwyno gwiriadau fforddiadwyedd. Mae'r ddeiseb wedi denu bron i 90,000 o lofnodion, ond dim ond tua 3,000 o'r rhain sydd wedi dod gan bobl yng Nghymru. Cytunwyd y byddai'r Aelodau o Blaid Cymru a Llafur a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ystyried hyrwyddo'r ddeiseb ar eu cyfryngau cymdeithasol.

**Adolygiad o'r ardoll** – Nododd Jack fod uwch gynrychiolwyr y diwydiant rasio yn parhau i gynnal trafodaethau â'r diwydiant hapchwarae ynghylch yr adolygiad o'r ardoll ac y bydd yr Awdurdod yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am gyllid statudol ar gyfer y diwydiant rasio.

**Cyfarfodydd yn 2024** – Cynigiodd Jack y dylid cadw'r strwythur presennol o gynnal tri chyfarfod mwy ffurfiol ac un digwyddiad (er enghraifft, cinio neu ymweliad ag iard). Awgrymodd James Evans y dylid cynnal un o gyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol ar yr un pryd â digwyddiad rasio ar gae rasio Bangor-is-y-Coed i geisio annog mwy o Aelodau i fod yn bresennol. Cytunodd Jack a Henry i drafod a fyddai modd gwneud hyn y flwyddyn nesaf.